NHS
Blood and Transplant

# Cynllun Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw y DU

## Atebion i'ch cwestiynau

- Rhodd Parau/ Lluosog
- Cadwyni Rhoddwyr Anhunanol i Ddieithryn


www.organdonation.nhs.uk
enquiries@nhsbt.nhs.uk
0300 123 23 23


Yes I donate
ORGAN DONATION

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i chi os ydych yn meddwl am roi neu dderbyn aren fel rhan o Gynlluniau Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw y DU, gan gynnwys:

- Rhodd Parau/Lluosog
- Cadwyni Rhoddwyr Anhunanol

Os ydych yn meddwl am roi neu dderbyn aren, rydym eisiau i chi wybod gymaint â phosib am beth y bydd yn ei olygu i chi a pha ddewisiadau y bydd efallai gennych. Gellir defnyddio'r wybodaeth yma fel canllaw i'ch helpu ond mae'r cynllun yn eithaf cymhleth a bydd eich Cydgysylltydd yn trafod hyn gyda chi wyneb yn wyneb yn fwy manwl i'ch helpu i ddeall y gwahanol opsiynau.

Ar Dudalen 14 rhoddir geirfa sy'n egluro rhai o'r termau mwy technegol neu fyrfoddau a ddefnyddir os na chawsant eu hegluro yn y testun ei hun. Tanlinellir y rhain i'ch helpu.

# Rhodd Parau/Lluosog

## C1. Beth yw rhodd parau/lluosog?


A1. Os oes angen aren arnoch ac mae rhywun sy'n agos atoch yn fodlon rhoi un i chi (rhoddwr) ond rydych yn anghydnaws â'ch gilydd oherwydd eich grŵp gwaed neu fath o feinwe (math HLA), gallech gael eich paru â phâr rhoddwr/derbynnydd arall yn yr un sefyllfa a threfnu i arennau'r rhoddwr gael eu 'cyfnewid' neu 'ffeirio'.

Er enghraifft mae angen trawsblaniad arnaf ac mae fy chwaer yn fodlon rhoi un o'i harennau iach i mi ond mae ei grŵp gwaed yn wahanol i fy un i. Fodd bynnag gallai ei haren fod yn gydnaws ar gyfer Mrs Arall (yn rhywle arall yn y DU) sydd hefyd angen trawsblaniad arni ac mae gan Mr Arall (sydd ddim yn gallu rhoi aren i'w wraig oherwydd ei grŵp gwaed) aren a grŵp gwaed a fyddai'n gydnaws iawn i mi. Mae'r cynllun paru'n golygu bod rhaglen gyfrifiadurol yr NHSBT yn 'paru' cyplau sydd yn y sefyllfa hon fel y gellir 'cyfnewid' y ddwy rodd aren. Felly byddwn i'n derbyn yr aren a roddwyd gan Mr Arall a byddai ei wraig, Mrs Arall, yn derbyn yr aren a roddwyd gan fy chwaer. Gyda'r ddau bâr, byddai'r person sydd angen aren yn derbyn trawsblaniad na fyddent yn ei gael fel arall.

Lle mae dau gwpwl yn gwneud hyn gelwir hyn yn rhodd 'parau' (*gweler Ffigwr 1*) a lle mae mwy na dau bâr yn gwneud hyn, gelwir hyn yn rhodd 'luosog.'

Ni fydd y person sy'n rhoi aren yn gwneud hynny hyd nes y gellir dod o hyd i aren addas ar gyfer eu perthynas/ffrind, felly dim ond os yw eu ffrind/perthynas hefyd yn derbyn trawsblaniad ar yr un pryd y bydd y person yn rhoi eu haren.

Weithiau gall parau o roddwyr a derbynyddion sy'n gydnaws hefyd ddewis y cynllun parau/lluosog i geisio dod o hyd i aren sy'n fwy addas i'r derbynnydd, naill ai o ran oed neu feinwe HLA cydnaws. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol os nad yw'r person gyda chlefyd arennol yn derbyn dialysis eto gan roi amser i geisio dod o hyd i drawsblaniad mwy addas. Er enghraifft mae derbynnydd iau'n fwy tebygol o fod angen mwy nag un trawsblaniad yn ystod eu bywyd, felly byddai'n well cael rhoddwr iau gyda meinwe HLA mwy cydnaws er mwyn rhoi'r cyfle gorau y bydd yr aren a drawsblannwyd yn gweithio am amser hir a llai o risg o ddatblygu gwrthgyrff. Mae gwrthgyrff yn ei gwneud yn anoddach dod o hyd i drawsblaniad addas arall yn y dyfodol.




**Ffigwr 1.** Rhodd parau a lluosog

## C2. Pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynllun parau/lluosog?

A2. Mae unrhyw bâr sy'n cynnwys rhoddwr a derbynnydd ac sy'n ystyried rhodd aren fyw yn gymwys ar gyfer y cynllun. Fodd bynnag, ar wahân i'r enghraifft a ddisgrifiwyd (*gw. Ateb 1*), mae'n well gan barau *cydnaws* roddi a derbyn yn uniongyrchol. Mae'r broses hon fel arfer yn llai cymhleth ac mae mwy o hyblygrwydd i gynllunio'r trawsblaniad os nad oes parau eraill i'w hystyried.

Os ydych yn dderbynnydd sy'n anghydnaws (ddim yn cydweddu) â'ch rhoddwr, fel arfer yr opsiwn gorau i'w ystyried yn gyntaf yw rhodd parau/lluosog – mae trawsblaniad cydnaws bron bob amser yn haws a mwy llwyddiannus na thrawsblaniad anghydnaws. Gall tynnu gwrthgyrff o'r gwaed fod yn eithaf cymhleth a rhaid i'r derbynnydd gael mwy o driniaeth i wneud y trawsblaniad yn bosib. Bydd eich tîm trawsblannu'n trafod yn fanwl beth yw'r opsiynau posib sy'n addas i chi. Mae pawb bron yn aros ar y rhestr drawsblannu genedlaethol am aren gan roddwr marw os ydynt wedi cofrestru ar y cynllun parau/lluosog.

## C3. Beth os oes nifer o roddwyr parod posib i un derbynnydd?

A3. Os oes gan dderbynnydd fwy nag un rhoddwr parod gyda gwahanol grwpiau gwaed a/neu fathau HLA, gellir cofrestru rhoddwyr ychwanegol gyda'r derbynnydd yn y cynllun parau/lluosog i wella'r posibilrwydd o gael eu paru â phâr arall. Rhaid i bob rhoddwr posib dderbyn asesiad llawn a bod yn barod i wneud hyn. Os deuir o hyd i baru llwyddiannus gydag un rhoddwr, nid oes angen i'r lleill roi.

Os nad yw'r trawsblaniad yn gallu digwydd gyda'r rhoddwr 'cydnaws' am unrhyw reswm, gallai fod yn bosib ystyried un o'r rhoddwyr eraill fel rhoddwr cydnaws arall gyda phâr gwahanol neu ailymuno â'r cynllun y tro nesaf. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n realistig asesu a chofrestru 2-3 rhoddwr ar y mwyaf ar gyfer pob derbynnydd yn y cynllun. Bydd y tîm trawsblannu yn trafod hyn â chi.

## C4. Beth y mae asesiad o'r rhoddwr a'r derbynnydd yn ei gynnwys?

A4. Rhaid i bawb sydd eisiau rhoi (rhoddwr) neu dderbyn (derbynnydd) aren rhoddwr byw gael eu hasesu'n ofalus i sicrhau ei bod mor ddiogel ag y bo modd symud ymlaen ac mai dyma'r penderfyniad iawn iddyn nhw. Mae canllawiau clir yn y Deyrnas Unedig (DU) gyda chyngor ar sut y dylai hyn ddigwydd. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i chi'n egluro'r broses asesu (y profion) a bydd digon o gyfle i chi ofyn cwestiynau a thrafod eich sefyllfa arbennig chi gyda'r tîm trawsblannu fydd yn gofalu amdanoch. Gyda rhodd parau/lluosog, trefnir yr asesiadau i'r rhoddwr a'r derbynnydd fel arfer gan y ganolfan drawsblannu lle mae'r derbynnydd yn cael gofal. Darllenwch 'Alla i fod yn rhoddwr aren byw?' am fwy o wybodaeth am fod yn rhoddwr aren byw.

## C5. Sut y mae'r broses yn gweithio?

A5. Gallwch gofrestru gyda'r cynllun parau/lluosog fel pâr rhoddwr/derbynnydd pan fydd y ddau neu'r ddwy ohonoch wedi cael asesiad. (*Gw. Ateb 4.*)

Pedair gwaith y flwyddyn (pob chwarter) mae NHSBT yn cyflawni 'rhediad paru' rhwng yr holl barau o roddwyr a derbynyddion yn y cynllun drwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol a ddyluniwyd yn arbennig i gyfrifo'r nifer a'r cyfuniad gorau o drawsblaniadau posib. Os ydych yn dderbynnydd a ddewisodd aros ar y rhestr drawsblannu genedlaethol am aren gan roddwr marw, a hefyd yn aros ar y cynllun parau/lluosog, byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y rhestr (atal dros dro) unwaith y bydd rhoddwr cydnaws wedi eu darganfod ar eich cyfer. Mae hyn yn bwysig fel nad oes un ochr i'r broses gyfnewid yn methu a phawb yn cael ei siomi. Byddwch yn aros wedi eich atal dros dro oni bai, am unrhyw reswm, nad yw'r trawsblaniad yn gallu digwydd. Os bydd hynny'n digwydd byddwch yn cael eich rhoi'n ôl ar y rhestr drawsblannu cyn gynted â phosib.

Bydd eich tîm trawsblannu'n rhoi gwybod i chi am y posibilrwydd o ddewis uchafswm oed a/neu nodi isafswm o gydweddiad HLA mewn rhoddwr arall. Bydd ychwanegu cyfyngiadau'n golygu y bydd llai o roddwyr efallai'n cael eu paru â chi ond gallai fod yn rhesymol gwneud hyn i ddechrau. Rhaid gwneud y dewisiadau hyn *cyn* cyflawni'r rhediad paru oherwydd mae gwrthod cyfnewid posib wedyn yn golygu bod pobl eraill hefyd yn colli allan ar gael trawsblaniad, sy'n achosi trallod

a siom. Bydd eich cydgysylltydd rhoddwr byw hefyd mewn cysylltiad â chi cyn pob rhediad paru i gadarnhau eich bod chi a'ch rhoddwr yn awyddus i gofrestru ar gyfer y rhediad arbennig hwnnw, i osgoi peidio gallu symud ymlaen â thrawsblaniadau ar ôl dod o hyd i 'gyfnewidiadau' ac ar ôl hysbysu'r holl roddwyr a derbynyddion. (*Gw. Ateb 8.*)

Anfantais y cynllun yw na fydd pawb sydd wedi cofrestru'n dod o hyd i rywun cydnaws. Efallai y bydd angen i chi aros am flwyddyn cyn dod o hyd i 'rywun cydnaws' ac efallai na fydd rhai derbynyddion a rhoddwyr byth yn cael eu paru â phâr arall. Mae hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol a bydd eich tîm trawsblannu'n edrych ar opsiynau eraill i chi os na fyddwch wedi cael eich paru ar ôl tri neu bedwar o rediadau paru (9-12 mis). Fodd bynnag nid oes cyfyngiad amser o ran am ba hyd y gallwch aros yn y cynllun parau/lluosog a mwya'n byd o barau sydd yn y cynllun, mwya'n byd yw'r cyfle o ddod o hyd i rywun cydnaws ar eich cyfer.

## C6. Sut ydw i'n gwybod y byddaf yn cael aren dda?

A6. Mae pawb sydd wedi cael eu derbyn ar y cynllun parau/lluosog fel rhoddwr posib eisoes wedi cael eu hasesu'n llawn yn yr un modd â'ch rhoddwr posib. Mae pob canolfan drawsblannu yn y DU yn dilyn yr un canllawiau wrth benderfynu a yw rhywun yn ddigon iach i roi a bydd neb yn cael eu cofrestru oni bai fod y tîm trawsblannu'n hapus eu bod yn addas. Mae hyn yn wahanol i roddwr marw lle mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am iechyd y person ac ansawdd eu harennau cyn trawsblaniad.

## C7. Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gael fy mharu?

A7. Pan fydd parau addas yn cael eu paru mae'r ganolfan drawsblannu berthnasol yn trefnu profion cydnawsedd (croes-baru HLA yn defnyddio samplau gwaed) rhwng yr holl barau sydd wedi eu paru, cyn gynted â phosib. Dylai hyn ddigwydd o fewn 1-2 wythnos i gadarnhau y gall yr holl drawsblaniadau ddigwydd. Os na all eich trawsblaniad ddigwydd am unrhyw reswm, byddwch yn cael eich rhoi'n ôl yn syth ar y rhestr drawsblannu genedlaethol. Fel gyda phob trawsblaniad rhoddwr byw, rhaid i'r Awdurdod Meinwe Dynol (HTA) gymeradwyo hyn yn gyntaf a bydd pob pâr yn gweld Asesydd Annibynnol (IA) sy'n sicrhau y bodlonir yr holl ofynion cyfreithiol. Ar ôl cymeradwyo, nid oes raid adnewyddu cymeradwyaeth yr HTA oni bai fod amgylchiadau'r rhoddwr neu'r derbynnydd wedi newid.

Y nod yw bod yr holl drawsblaniadau posib yn digwydd o fewn wyth wythnos i'r 'rhediad paru'. Fodd bynnag gall yr amseru amrywio gan ddibynnu ar faint o barau sy'n cymryd rhan a pha mor gymhleth yw'r trefniadau rhwng yr holl ganolfannau trawsblannu neu os bydd un o'r rhoddwyr neu'r derbynyddion yn mynd yn sâl, er

enghraifft. Fel arfer mae pob llawdriniaeth rhoddwr yn cael eu trefnu ar yr un pryd ar yr un diwrnod, ond mewn amgylchiadau eithriadol efallai na fydd modd dilyn y drefn honno am resymau ymarferol. Yn y sefyllfa hon bydd eich tîm trawsblannu'n trafod y cynlluniau gyda chi fel eich bod yn glir sut y bydd y cyfnewid yn gweithio ac am unrhyw risgiau ychwanegol i chi. Fel pâr rhoddwr-derbynnydd, bydd eich llawdriniaethau fel arfer yn digwydd yn eich canolfan drawsblannu leol a bydd yr arennau a roddwyd yn teithio rhwng y canolfannau trawsblannu perthnasol. Trefnir cludiant arbennig i sicrhau bod yr arennau'n teithio mor gyflym a diogel â phosib i'r derbynyddion. Gallai fod rhesymau pam ei bod yn haws neu'n gallach i roddwr neu dderbynnydd symud i ganolfan drawsblannu arall i gael eu llawdriniaeth, sy'n bosib ei drefnu os bydd pawb yn cytuno.

Mae risg fach na fydd llawdriniaeth yn digwydd fel y'i cynlluniwyd, gan adael derbynnydd heb drawsblaniad. Mae hyn yn anghyffredin iawn gyda rhodd aren fyw ond gallai ddigwydd ac mae'n bwysig deall pan fyddwch yn ymuno â'r cynllun bod siawns fach, er yr holl baratoadau gofalus fel rhan o'r 'profion', na fydd yn bosib trawsblannu'r aren a roddwyd neu na fydd efallai'n gweithio. Mae amryw o ragofalon i atal hyn rhag digwydd ac mae timau trawsblannu'n gweithio'n agos iawn â'i gilydd wrth gynllunio trawsblaniadau parau/lluosog i sicrhau fod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei rhannu a'ch bod yn cyfrannu at y penderfyniadau am eich rhodd a'ch trawsblaniad.

*Gweler Ateb 14* am fwy o wybodaeth am beth sy'n digwydd os yw rhoddwr i ddieithryn yn cael ei gynnwys yn y gadwyn.

## C8. A oes gen i gyfrifoldebau arbennig unwaith i mi gofrestru ar y cynllun?

A8. Drwy gofrestru ar y cynllun parau/lluosog rydych yn cytuno, oni bai fod rhywbeth annisgwyl yn digwydd yn y cyfamser, i ymrwymo i fynd ymlaen gyda'r rhodd a'r trawsblaniad os cewch eich paru'n llwyddiannus. Nid yw hyn yn dileu eich hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg tan y llawdriniaeth, ond oherwydd bod hyn yn effeithio ar barau eraill yn y cynllun, mae'n bwysig ceisio osgoi hyn oni bai fod yr amgylchiadau'n eithriadol.

Cyn bob 'rhediad paru' bydd y ganolfan drawsblannu'n gofyn i bob un o'u rhoddwyr a derbynyddion gadarnhau eu bod am gael eu cynnwys yn y rhediad. Mae hyn yn golygu eu bod yn ffit a pharod i gymryd rhan. Rhaid i unrhyw un, rhoddwr neu dderbynnydd, sy'n ansicr a ydynt am fynd ymlaen â'r broses, gael eu hatal dros dro (eithrio) o'r cynllun ar y pwynt hwn. Gallwch gael eich cynnwys a'ch atal dros dro o'r cynllun mor aml ag y dymunwch cyn belled â'ch bod yn nodi hynny'n glir cyn y 'rhediad paru'. Os ydych chi a/neu eich rhoddwr neu roddwyr wedi bod yn sâl, dylech roi gwybod i'ch tîm trawsblannu cyn gynted â phosib er mwyn gallu penderfynu a ddylech gael eich cynnwys yn

y rhediad paru nesaf neu beidio. Rhaid i chi hefyd sicrhau bod eich dewisiadau ynghylch oed a mathau HLA (*gweler Ateb 5*) yn glir ac wedi eu cadarnhau cyn i bob 'rhediad paru' ddigwydd.

### C9. A fyddaf yn gwybod pwy a roddodd aren i mi, neu bwy a dderbyniodd aren fy rhoddwr?

A9. Mae parau o roddwyr a derbynyddion yn ddienw i'w gilydd cyn y llawdriniaethau er lles yr holl roddwyr a'r derbynyddion. Os yw'r cyfrinachedd yn cael ei dorri cyn y trawsblaniad gallai rwystro'r holl lawdriniaethau 'cyfnewid' rhag digwydd. Ar ôl y llawdriniaethau trawsblannu, gallai'r parau o roddwyr-derbynyddion gwrdd neu gysylltu â'i gilydd ond dim ond os yw pawb yn cytuno. Gall y cydgysylltwyr trawsblaniadau rhoddwr byw ym mhob un o'r canolfannau trawsblannu eich helpu i gysylltu â'ch rhoddwr neu dderbynnydd ar ôl y llawdriniaethau os bydd pawb eisiau. Mae rhai pobl yn fwy preifat nag eraill ac efallai na fyddant yn dymuno gwybod am barau eraill neu gyfarfod â nhw. Ni ddylech deimlo dan bwysau i gyfarfod ac os nad yw'n rhywbeth yr ydych eisiau ei wneud, bydd eich preifatrwydd bob amser yn cael ei barchu.

**Mae gan y cyfryngau ddiddordeb yn aml yn y mathau hyn o drawsblaniadau a gallent ofyn i chi gymryd rhan mewn storïau newyddion neu raglenni radio a theledu a chyhoeddusrwydd arall. Mae'r HTA a'r NHSBT yn cefnogi cyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o roddi organau a thrawsblannu ac mae polisi cyfryngau ar gael i roi arweiniad i bobl. Gallai eich cydgysylltydd ei drafod gyda chi. Os gofynnir i chi gymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd, cofiwch ei drafod â'ch cydgysylltydd rhoddwr byw'n gyntaf fel y gellir eich cynghori. Os bydd y cyfryngau'n cysylltu â chi'n uniongyrchol neu os ydych am gynnig eich stori bersonol i godi ymwybyddiaeth, yn enwedig cyn rhoi aren neu drawsblaniad, cofiwch ofyn am gyngor cyn rhoi unrhyw fanylion y gellir adnabod eich pâr rhoddwr-derbynnydd, neu barau eraill ohonynt, neu ddyddiad a lleoliad y llawdriniaethau.**

## Rhodd Anhunanol i Ddieithryn

### C10. Beth yw rhodd anhunanol i ddieithryn?

A10. Mae hyn yn digwydd pan fydd person yn gwirfoddoli i roi aren yn ddienw i rywun y mae angen aren arno, hynny yw, rhywun nad yw wedi'i gyfarfod na chlywed amdano erioed ac sy'n anhysbys iddo ef/hi. Mantais y math yma o rodd yw bod derbynnydd y trawsblaniad yn derbyn trawsblaniad aren gan roddwr byw ac iach, sy'n opsiwn da iawn i'r claf. Mae rhoddwyr anhunanol i ddieithryn fel arfer yn cyfrannu at y cynllun parau/lluosog er mwyn creu 'cadwyn' o hyd at dri trawsblaniad (gweler *Ateb 13*) oni bai fod claf â blaenoriaeth uwch ar y rhestr

trawsblaniadau genedlaethol. Os nad oes modd paru'r rhoddwr â derbynnydd i ddechrau cadwyn, bydd yr aren yn cael ei rhoi i'r derbynnydd mwyaf addas ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol, gan ddefnyddio'r un cynllun dyrannu cenedlaethol a ddefnyddir ar gyfer rhoddwyr arennau sydd wedi marw.

## C11. Pwy sy'n gallu bod yn rhoddwr anhunanol i ddieithryn?

A11. Gall unrhyw oedolyn wirfoddoli i gael ei ystyried fel rhoddwr anhunanol i ddieithryn (dros 18 oed yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru, dros 16 oed yn yr Alban). Gall unrhyw un sy'n dymuno gwirfoddoli neu gael rhagor o wybodaeth gysylltu â'r cydlynydd rhoddwyr byw yn eu canolfan trawsblannu agosaf. Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth am roi aren i rywun nad ydych chi'n ei adnabod yma.

## C12. Sut y mae'r broses yn gweithio ar gyfer y rhoddwr anhunanol i ddieithryn?


A12. Ar gyfer rhoddwyr anhunanol i ddieithryn, caiff yr asesiad hwn ei drefnu gan y ganolfan trawsblannu agosaf i ble mae'r rhoddwr yn byw fel arfer, ond gallant ddewis cysylltu ag unrhyw ganolfan trawsblannu yn y DU sydd ar y rhestr ar wefan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Pan fydd yr asesiad o'r rhoddwr wedi'i gwblhau, bydd yn cael ei gofrestru fel rhoddwr gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Mae rhagor o wybodaeth am roddion arennau anhunanol i ddieithryn ar gael yn y daflen hon 'Alla i roi aren i rywun nad ydw i'n eu hadnabod?'

# Cadwyni Rhoddwyr Anhunanol

## C13. Beth yw cadwyn rhoddwr anhunanol?

A13. Bydd hyn yn digwydd pan fydd rhoddwr anhunanol i ddieithryn yn rhoi aren i Gynllun Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw y DU yn lle gwneud hynny'n uniongyrchol i'r rhestr trawsblaniadau genedlaethol. Caiff yr aren sy'n cael ei rhoi ei pharu â derbynnydd ar y cynllun ac, ar ôl hynny, fe fydd y rhoddwr sydd wedi'i gofrestru â'r derbynnydd hwnnw'n rhoi i dderbynnydd arall, ac yn y blaen, fel y dangosir yn ffigwr 2. Bydd y gadwyn yn gorffen pan fydd y rhoddwr diwethaf yn rhoi i dderbynydd ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol. Fel hyn, mae'n bosibl 'sbarduno' hyd at dri thrawsblaniad o un rhodd unigol i ddieithryn. Mae hyn yn sicrhau bod cleifion yn cael y cyfle gorau posibl o gael trawsblaniad.

Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i bob rhoddwr am ddyddiadau'r rhediadau paru chwarterol a'r wythnosau llawdriniaeth er mwyn gallu penderfynu pa rediad paru maent yn dymuno bod yn rhan ohono (*gweler Ateb 5*). Dywedir wrth y parau o roddwyr-derbynyddion sydd wedi'u cofrestru gyda'r cynllun parau/lluosog am y posibilrwydd o gael eu cyfateb i gadwyn rhoddwyr anhunanol yn lle'r cyfnewid 2-ffordd (pâr) neu 3-ffordd (lluosog) arferol.




**Ffigwr 2.** Rhodd Anhunanol i Ddieithryn

## C14. Beth sy'n digwydd pan fydd derbynnydd yn y cynllun parau/lluosog yn cael ei adnabod mewn cadwyn rhoddwr anhunanol?

A14. Os yw derbynnydd yn y cynllun parau/lluosog yn cael ei baru mewn cadwyn rhoddwr anhunanol, mae'r broses yr un fath ag a ddisgrifiwyd eisoes (*gweler Ateb 7*). Os yw'r profion cydnawsedd â'r holl roddwyr a derbynyddion a barwyd yn dangos y gall y trawsblaniadau fynd yn eu blaenau, bydd angen i'r HTA gymeradwyo'r rhoddwyr a'r derbynyddion parau/lluosog a threfnu dyddiad ar gyfer y llawdriniaethau (fel arfer o fewn wyth wythnos). Eto, mae'r rhoddwyr a'r derbynyddion fel arfer yn aros yn eu canolfannau trawsblannu lleol a'r arennau'n cael eu cludo i ganolfannau trawsblannu'r derbynyddion. Mae'r holl lawdriniaethau ar gyfer y rhoddwr fel arfer yn cael eu trefnu ar yr un pryd ar yr un diwrnod ond weithiau efallai na fydd modd dilyn y drefn honno ac y bydd angen cynnal y llawdriniaethau ar wahanol ddiwrnodau, am resymau ymarferol

neu i osgoi oedi diangen gydag amseru'r dyddiadau trawsblannu. Yn y sefyllfa hon mae'r rhoddwr anhunanol i ddieithryn bron bob amser yn rhoi'n gyntaf, i gychwyn y gadwyn. Bydd eich tîm trawsblannu'n trafod hyn gyda chi fel eich bod yn glir sut y bydd y cyfnewid yn gweithio ac am unrhyw risgiau ychwanegol i chi.

## C15. Beth sy'n digwydd os bydd rhoddwr anhunanol yn rhoi'n uniongyrchol i'r rhestr drawsblannu genedlaethol?

A15. Mae dyrannu aren gan roddwr anhunanol yn gweithio'n union yr un fath ag ar gyfer aren gan roddwr wedi marw. Gweler www.kidney.org.uk i ddysgu mwy am hyn.

## C16. A oes unrhyw ystyriaethau arbennig ar gyfer rhoddwyr anhunanol?

A16. Mae angen i roddwyr anhunanol i ddieithryn feddwl am y ffaith nad oes ganddynt unrhyw berthynas na chysylltiad emosiynol ag unrhyw un o'r derbynyddion neu roddwyr yn y trawsblaniadau a allai ddilyn eu rhodd. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn profi'r pleser o weld rhywun sy'n annwyl iddynt yn elwa o drawsblaniad fel y byddent wrth adnabod y derbynnydd. Os yw'r rhoddwyr a'r derbynyddion eraill yn penderfynu peidio â chysylltu drwy'r cydgysylltydd rhoddwr byw ar ôl y rhodd a'r llawdriniaethau trawsblannu, efallai na fydd y rhoddwr anhunanol i ddieithryn yn gwybod sut yr aeth pethau iddynt. Efallai nad yw hyn yn broblem ond mae'n bwysig i'r rhoddwr feddwl am hyn wrth benderfynu rhoi.

Mae hefyd angen i roddwr i ddieithryn benderfynu a ydynt eisiau rhoi i'r cynllun parau/lluosog i greu cadwyn rhoddwr anhunanol neu 'optio allan' a rhoi'n uniongyrchol i'r rhestr drawsblannu genedlaethol yn hytrach. Mae 'cadwyni' yn creu mwy o gyfleoedd trawsblannu i gleifion sy'n aros felly mae'n bwysig ei gwneud yn ymarferol i gymaint o roddwyr anhunanol â phosib gael cyfle i gymryd rhan mewn rhediad paru'n hytrach na rhoi'n uniongyrchol i'r rhestr drawsblannu genedlaethol. Fodd bynnag mae pob rhoddwr yn rhydd i benderfynu beth sydd orau i'w hamgylchiadau a sut y maen nhw'n dymuno rhoi.

**O ran cyfrifoldebau arbennig, fel aros yn ddienw a chyhoeddusrwydd gan y cyfryngau, mae'r un canllawiau'n berthnasol i roddwr anhunanol i ddieithryn ag i barau yn y cynllun parau/lluosog (*gweler Ateb 8*).**

# Gwybodaeth bellach

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth yma'n eich helpu i benderfynu a ydych eisiau cymryd rhan yng Nghynlluniau Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw y DU fel y gallwch drafod eich penderfyniad yn fanwl â'ch tîm trawsblannu.

I'ch helpu i benderfynu beth sy'n iawn i chi, awgrymwn eich bod yn darllen y daflen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a roddwyd i chi am drawsblaniad aren rhoddwr byw, gan gynnwys taflen yr Awdurdod Meinwe Dynol (HTA) *'Information About Living Donor Transplants'*, sydd ar gael gan eich cydgysylltydd rhoddwr byw neu oddi ar wefan y HTA yn www.hta.gov.uk.

Am fwy o wybodaeth am roddion arennau byw dylech gysylltu â'r cydgysylltydd rhoddwr byw neu nyrs cyswllt trawsblannu yn eich Uned Arennol leol. Mae'r rhain ar gael ar y wefan rhoi organau.

## Gwybodaeth ddefnyddiol arall:

**Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG**

E-bost: enquiries@nhsbt.nhs.uk
Ffôn: **0300 123 23 23**
Gwefan: www.organdonation.nhs.uk

**Awdurdod Meinwe Dynol**

151 Buckingham Palace Road, London, SW1W 9SZ.
E-bost: enquiries@hta.gov.uk
Ffôn: **020 7269 1900**
Gwefan: www.hta.gov.uk

Rhoi organau tra rydych yn fyw, Yr Alban:
www.organdonationscotland.org/tell-me-about-living-donation

Rhoi organau tra rydych yn fyw, Gogledd Iwerddon:
www.donatelife.co.uk

## Elusennau

**Kidney Care UK** – yn gwella bywyd i gleifion arennol.

E-bost: info@kidneycareuk.org
Ffôn: **01420 541424**
Gwefan: www.britishkidney-pa.co.uk

Mae'r elusen **Gift of Living Donation** yn hyrwyddo rhoi arennau byw ac yn codi ymwybyddiaeth o roi arennau yn y gymuned Affricanaidd a Charibïaidd.

E-bost: info@giftoflivingdonation.co.uk
Gwefan: www.giftoflivingdonation.co.uk

**Give a Kidney** – Elusen sy'n codi ymwybyddiaeth o roi anhunanol i ddieithryn ac sy'n cefnogi rhoddwyr a darpar roddwyr drwy'r broses.

E-bost: giveakidney@gmail.com
Gwefan: www.giveakidney.org

**Ymchwil Arennol y DU** – Elusen sy'n ariannu ymchwil ac yn codi ymwybyddiaeth o glefyd arennol.

E-bost: enquiries@kidneyresearchuk.org
Llinell Gymorth: **0300 303 1100**
Gwefan: www.kidneyresearchuk.org

Gwasanaeth gwybodaeth iechyd arennol ar y we i gleifion arennol, eu teuluoedd a gofalwyr, yn ogystal ag i ymchwilwyr a gweithwyr meddygol proffesiynol.

Gwefan: www.kidneyresearchuk.org/health-information

**Y Ffederasiwn Arennol Cenedlaethol** – Elusen sy'n cael ei rhedeg gan gleifion arennol i gleifion arennol.

E-bost: Llinell Gymorth@kidney.org.uk
Llinell Gymorth: **0845 601 02 09** (Dydd Llun tan Ddydd Gwener, 9am-5pm)
Gwefan: www.kidney.org.uk

Cynhyrchwyd gan NHS Blood and Transplant.

Rhoddwyd at ei gilydd gan is-grŵp Grŵp Gweithredu Strategaeth Drawsblannu Arennau Rhoddwyr Byw 2020.

# Geirfa

## Anghydnaws

Lle nad yw rhywun sy'n addas i roi aren mewn ffordd uniongyrchol a didrafferth i rywun sy'n annwyl iddynt, ac sydd angen trawsblaniad yn gallu gwneud hynny oherwydd eu bod yn anghydnaws – naill ai gyda'r grŵp gwaed anghywir neu fath anghywir o feinwe.

## Asesydd Annibynnol

Person hyfforddedig ac achrededig sy'n annibynnol ar y tîm trawsblannu. Maen nhw'n cyfweld rhoddwyr a derbynyddion trawsblaniad organ byw yn y DU ac yn rhoi adroddiad i'r HTA.

## Cydnaws

Lle nad oes gan y person sydd angen trawsblaniad aren wrthgyrff i grŵp gwaed neu fath meinwe (HLA) y rhoddwr ac mae trawsblaniad didrafferth rhyngddynt yn bosib.

## Cyfnewid

Parau o roddwyr/derbynyddion cydnaws y bydd arennau'n cael eu cyfnewid rhyngddynt.

## Cynllun Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw y DU

Cynllun lle gellir cyfnewid neu 'ffeirio' arennau o roddwyr byw ar draws y DU er lles cleifion sy'n aros am drawsblaniad.

## Gwrthgyrff

Mae'r corff yn cynhyrchu gwrthgyrff pan fo'n canfod rhywbeth 'estron'. Eu pwrpas yw cael gwared ar unrhyw beth a allai fod yn niweidiol (e.e. feirws neu facteria) o'r corff. Ar y cyfan mae hyn yn beth da ond gall fod yn broblem wrth drawsblannu pan fydd aren 'estron' gyfan yn cael ei rhoi i rywun. Os oes gan y derbynnydd wrthgyrff yn erbyn grŵp gwaed neu fath HLA y rhoddwr, bydd aren y rhoddwr hwnnw neu honno'n anaddas i'r derbynnydd oherwydd bydd y gwrthgyrff yn ymosod ar yr aren 'estron' ac yn ei gwrthod. Mae gwrthgyrff grŵp gwaed yn y gwaed yn fuan iawn yn ein bywyd ac mae gwrthgyrff math HLA yn cael eu creu os yw'r derbynnydd wedi bod mewn cysylltiad â chelloedd person arall drwy feichiogrwydd (mae'r babi'n hanner y tad), trallwysiad gwaed neu drawsblaniad organ blaenorol.

## HTA

Yr Awdurdod Meinwe Dynol: corff rheoleiddio a sefydlwyd i weithredu gofynion y Ddeddf Meinwe Dynol (2004).

## Math HLA

Proteinau a elwir yn Antigenau Lymffocytau Dynol (HLA) sy'n ffurfio math HLA unigol bob person. Gelwir hyn yn aml yn fath meinwe. Gellir meddwl amdano fel 'cod bar' ar wyneb celloedd. Oni bai fod gennych efaill un-ffunud, yna ni fydd gan neb arall yr un 'cod bar' â chi. Mae'r math HLA yn helpu i adnabod rhoddwyr addas ar gyfer derbynyddion.

## NHSBT

Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG – awdurdod iechyd arbennig yn y GIG sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cyflenwad o waed, organau a meinweoedd. O fewn y NHSBT mae'r Gyfarwyddiaeth Rhoi a Thrawsblannu Organau (ODT) yn gyfrifol am sicrhau bod rhoddion organau a meinweoedd yn cael eu paru â chleifion sydd angen trawsblaniad a'u defnyddio yn y ffordd decaf.

## Pâr rhoddwr/derbynnydd

Person sydd angen trawsblaniad a rhoddwr parod sydd wedi cofrestru gyda'i gilydd yn y cynllun parau/lluosog.

## Rhediad paru

Rhediad paru arennau sy'n cael ei gyflawni gan y NHSBT drwy raglen gyfrifiadurol bedair gwaith y flwyddyn i adnabod cyfnewidiadau parau/lluosog a chadwyni rhoddwr anhunanol.

## Rhoddwr marw

Person sy'n rhoi eu horganau a meinweoedd i'w trawsblannu ar ôl iddynt farw.

## Trawsblaniad aren rhoddwr byw

Trawsblaniad aren rhwng rhywun sy'n rhoi aren yn ystod eu hoes (rhoddwr byw) i dderbynnydd sydd angen trawsblaniad aren.

## Y Ddeddf Meinwe Dynol

Mae Deddf Meinwe Dynol 2004 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Deddf Meinwe Dynol (Yr Alban) 2006 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoi organau a meinwe yn y DU. Mae rheolau'r Awdurdod Meinwe Dynol (HTA) yn nodi bod yn rhaid cwrdd â gofynion penodol cyn y gall rhodd gan roddwr byw ddigwydd. Rhaid i bob llawdriniaeth trawsblaniad rhoddwr byw gael eu cymeradwyo gan y HTA yn dilyn asesiad annibynnol.

## Y rhestr drawsblannu genedlaethol

Rhestr ar draws y DU o gleifion sy'n aros am aren.

## Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Mae Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT) yn achub a gwella bywydau drwy ddarparu cyflenwad diogel, dibynadwy ac effeithlon o waed, a gwasanaethau cysylltiedig, i'r GIG yng Ngogledd Cymru a Lloegr. Ni yw corff rhoddwyr organau'r Deyrnas Unedig ac rydym yn gyfrifol am baru a dyrannu organau a roddir. Dibynnwn ar filoedd o aelodau'r cyhoedd sy'n rhoi eu gwaed, organau, meinweoedd a bôn-gelloedd yn wirfoddol.

**Am fwy o wybodaeth**
**Ewch i** **nhsbt.nhs.uk**
**E-bost** **enquiries@nhsbt.nhs.uk**
**Ffoniwch** **0300 123 23 23**

[UK Living Kidney Sharing Scheme] 1819606 OLC217.3W